Cyfres Llanbedr | Mawrth, 1926. | Cyf. 26. Rhif 3.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. Y Parch. T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

NODION Y GOLYGYDD.
ORIAU CYFAREDD.
GELLIONNEN.
'SLAWER DYDD.
MYDRYDDWYR Y SALMAU.
GYLCH Y FORD FACH.
PRIODAS. MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Geiriadur Beiblaidd

Y Gwaith Pwysicaf ar y Beibl
a Gyhoeddwyd yn Gymraeg.

Pedair mil o Erthyglau gan 180 o'n gwyr blaenaf.
Pris 1/6 y Rhifyn.

I'w gael o Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

.. RICHARD PRICE ..

Philosopher and Apostle of Liberty.

Gan ROLAND THOMAS, M.A.
Cyfarwyddwr yr Ysgol Wyliau Gymraeg.

Gwasg Prifysgol Rhydychain, 5/-. ; Drwy'r Post, 5/5.

Anfoner i Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

.. Yr Ymofynnydd. ..

Cyfres Llanbedr. MAWRTH, 1926. Cyf. XXVI. Rhif 3.

NODION Y GOLYGYDD.

Eu Nêr a folant,
Eu hiaith a gadwant,
Eu tir a gollant
Ond gwyllt Walia.

YMAE'N ddydd Gwyl Dewi fel y *gŵyr* pob Cymro gwir ac fel y *cofia* pob Dic Shon Dafydd. Diddorol heddiw yw troi tudalennau hen lyfr Ancr Llanddewibrefi; darllain am eni Dewi a cheisio lleoli'r bryncyn a gododd dan ei draed; gwrando ar ei bregeth a honno "megis llef corn eglur" chwedl yr Ancr, a gweld Pelagius yn ffoi, gan ystaenio Dyffryn Teifi o'i ol nes ei alw hwyrach, er hynny yn "Ysmotyn Du." Dyma ddywedir ac

Llyfr Ancr a Rhygyfarch.

yng Nghymraeg yr Ancr, "Keredic vrenhin a wledych lawer o Vlwynyded, ac oe enw ef y kauas "Keredigyawn y henw, a mab auu idaw, ac enw "y mab oed Sant. * * * enw y lleian oed "Nonn., a mab a anet idi, a Dauid a rodet yn enw arnaw." * * * "Dyw Mawrth y dyd kynntaf o galan Mawrth y kymerth Iessu "Grist eneit Dewi Sant." Yn yr Amgueddfa Brydeinig y ceir yr ysgrif bwysicaf am hanes bywyd yr hen sant a honno o waith Rhygyfarch. Maentumir geni Dewi yn y flwyddyn 462 O.C. a myn y Parch. A. W. Wade Evans iddo farw yn wr ieuanc 44 mlwydd oed yn y flwyddyn 505, a dyma'i farn onest,—"Gall enw Dewi Sant sefyll yn ddigon priodol dros holl sefydlwyr selog y mynachdai, dros y gwŷr a drefnodd Gristionogaeth yng Nghymru yn y bumed ganrif ar gynllun brodorol. Dyma'r gwŷr a lanwodd Gymru a llannau, ac a weodd y Cymry yn ei gilydd drwy'r llannau, fel na allasai unrhyw beirianwaith gwladwriaethol ei wneuthur."

Dyma'n fyr a ellir ddywedyd am Nawdd Sant Cymru, ac er fod hud a niwl y canrifoedd ar yr hanes y mae'n dda gennyf am yr hen Sant. Yr oedd yn Gymro. Nid ei fenthycia wnaethom fel ein cymydogion a charaf gredu fod nawdd sant cenedl yn delweddu goreu enaid y genedl honno. Os felly diolch am Ddewi Sant oherwydd—

"Dyn fo a Duw'n ei fywyd
A garia barch gwŷr y byd."

Gwaith rhwydd yw llurgunio'r iaith ar ddydd Gwyl Dewi a chwythu'r geiriau drwy'r dannedd—"*Ois i bid i'r Iêth Cymrec.*" Y mae'n dreth ar amynedd a synnwyr cyffredin (heb feddwl ei bod yn gwaedu calon y neb a gar ei iaith) i wrando ar wŷr yr arian, oherwydd "curiadau calon cenedl yw ei hiaith," Pwy ddydd anfonwyd imi bapur newydd "AN PHOBLACHT" ac er nas medraf iaith y Gwyddyl, rywsut yr wyf yn ei ddeall, yn well hwyrach. Nid am fy mod yn canmol pob dim a wneir yn enw rhyddid ond am fod eisieu ysbryd y "Sinn Fein," sef "Ni Ein Hunain" ar Gymro er cael Deffroad Newydd. Y mae swn condemnio yng ngeiriau Thomas Davis, —"Pan gyll gwlad iaith ei chrud, y mae hithau'n barod i'r bedd." Gwn am ornest y cedyrn parthed gorfodi'r iaith. Nid ewyllysiaf dynnu cleddyf ond trueni ein bod mor wasaidd a gwerthu enaid yr hen Sant ar ddydd ei wyl a chywilyddio bod yn "*Ni ein hunain*" er diogelu'n hiaith, trysor gwerthfawrocaf ein cenedl.

An Phoblacht a Deffroad

* * *

Naturiol ddigon troi oddiwrth yr hen sant at grefydd y genedl a gweld ei bod yn symud yn raddol oddiwrth ysbryd meudwyaidd y Piwritan yn ol at y cain a'r llon, ei hysbryd cynhenid, a mynnai'r gwr doeth yn y Trioedd fod Cymro'r amser gynt yn rhy lon a nwyfus. "Tair cynneddf gynhenid y dylai Cymro ei gwellhau—rhy lew, rhy lariaidd a *rhy lawen.*" Nid da rhy o ddim. Collodd y Cymro ei ysbryd llawen, ysbryd y Groegwr gyda llaw yn nifrifwch crefyddol yr Hebrewr. Y mae'r symud neu'r gwrthryfel hwn i'w deimlo ymhob cylch. Nid yw'r Cymro ieuanc meddylgar ac effro mor barod a chynt i dderbyn credo'r tadau. Ni chred fod unrhyw ddogma'n anffaeledig a therfynol ac i'w derbyn ar sail awdurdod o'r tu allan iddo ef ei hun. Y mae sedd awdurdod ym myd crefydd yn symud o'r Eglwys a'r Beibl i natur foesol dyn ei hunan ac esbonia hyn y cyfnewid ymhob cyfeiriad.

* * *

Darllenais yr ysgrifau ar yr aduno gan arweinwyr y gwahanol enwadau ac y maent yn ysgrifennu'n onest. Rhwydd casglu fod yr hinsawdd wedi newid. Nid cilwg a brath ond gwen a brawdgarwch i fesur mawr iawn. Hyd y medraf i weld y mae pob enwad wedi symud ymhellach nag y gŵyr. Y mae esboniadaeth newydd ac ysgolheigiaeth ddiweddar yn erlid y gwahaniaethau athrawiaethol. Y mae'r hen ddadleuon diwinyddol yn ddifudd a phe medrid anghofio'r llythyren, buasem yn weddol unol mewn ysbryd. Defnyddir yr hen dermau ond gydag ystyr newydd. Nid da mo hyn oherwydd fod llawer o ysbryd y canol oesoedd ynghlwm wrthynt. Gyda deffinio'n gywirach ac yn nhermau heddiw credaf y

Lake a Gore

buasem lawer yn nes at ein gilydd. Y mae popeth i'w ddywedyd tros hyn ond na cheisier am unffurfiaeth, ond yn hytrach ceisier am ymgynghreiriad (*federation*) o'r holl eglwysi ac am undeb yr Ysbryd. Y mae Dr. Kirsopp Lake yn ei lyfr "CREFYDD DDOE AC YFORY" yn nodi thri pharti, "y Sylfaenolwyr (*Fundamentalist*) na dderbyniant mor wybodaeth ddiweddar a heb amheuaeth yn croesi'u meddwl; Yr Arbrofwyr (*Experimentalists*) nad ydynt ond megis lefain heddiw ac yn ddi-ystyr o'r gorffennol; a'r Sefydliadolwyr (*Institutionalists*) y sydd yn anonest yn feddyliol er mwyn y sefydliad." Nid oes betruster yn ol y llyfr na pherthyn y dyfodol i'r Arbrofwyr, etifeddion y teidiau nid mewn credo ond mewn ysbryd mentrus dros y gwir. Er dangos ein bod yn symud sylwer ar eiriau Dr Gore. Gynt credid yn ysbrydoliaeth y Beibl (yn yr ystyr gulaf ond odid) ond deil Dr. Gore fod yn rhaid gollwng gafael ar rai rhannau ohono. Yng ngoleuni gwybodaeth ddiweddar amhosibl ydyw hawlio'r Beibl fel llyfr hanes anffaeledig ac ä cyn belled ag awgrymu fod angen ailfoldio diwinyddiaeth draddodiadol. Nid amheua neb onestrwydd ei eiriau a chredaf fod yr annwyl O. M. Edwards wedi traethu'r gwir pan ddywedodd, —"Nid yw y gwahaniaeth rhwng y sectau ond dibwys o'i gymharu a'r holl wirioneddau sy'n eiddo cyffredin iddynt."

* * *

Yr un awgrym ond odid a geir mewn "ymddiddan" o'r eiddo y Parch. Tyssul Davis a newyddiadurwr parthed yr olwg a gaiff ar grefydd ond ei fod yn ei darlunio mewn ffordd wreiddiol. Ni fodlona ef ar dybio o ddyn ei fod yn grefyddol pan nad yw ond yn druenus ond yn hytrach cais am sirioldeb crefyddol a fedr ysbrydoli pob mudiad mewn celf, llen a miwsig fel ag i ddod yn brif amcan bywyd beunyddiol. Geilw i gof eiriau Bernard Shaw ein bod yn newid hyd yn oed ein Cynghorau Plwyf bob tair blynedd ond ni newidiwn mo'n credoau unwaith mewn tri chan mlynedd.

Meddyleg Newydd

Y mae Meddyleg Newydd yn ein dysgu y cymer pob meddwl ar ol ei fath ac ond i ni feithrin meddyliau cysurus deuwn i feddwl yn gyflymach ar ol y gweddill o'r hil. Ar y llaw arall o feddwl yn isel am danom ein hunain, fe ddeuwn yn y diwedd a ddywedwn yr ydym. Y mae cyffro yn y gwersyll. Ni fedrir cael Oes Tangnefedd a phob enwad am wddf ei gilydd. Yr ym yn symud oddiwrth gulni ac anwybod. Parchwn y goreu ymhob credo. Addefwn fod gwŷr Duw ymhob cenedl, ymhlith canlynwyr Buddha a Chonfucius yn ogystal ag yn rhif dilynwyr Iesu. Ni osodir ffin i gariad Duw ac ni ddywedir 'gwyn ei byd" ond wrth galon onest, yn caru gwirionedd ac wedi'i thrwytho ag Ysbryd Iesu.

ORIAU CYFAREDD.

THE Day is done, and the darkness
Falls from the wings of Night.

DIWRNOD gaeafol: gwynt a glaw yn curo ar y ffenestr, a chwynfan y coed ar ymylon yr ardd. Os daeth gweledigaeth i rywun heddiw, hoffwn ysgwyd llaw ag ef. Chwenychais innau ei chael, methais a'i chanfod. Ceisiais ddarllen, ond d'oedd dim yn gafael ynof. Euthum am dro drwy y glaw, ac yr oedd yr ychydig bersonau a gyfarfum mor ddwl a mi fy hun.

"The day is cold, and dark, and dreary,"—Longfellow. Gwyddai yntau am dano. Ac yr oedd y dydd tywyll, caddugol, yn taflu ei gysgod ar ei feddwl.

Ond daeth y dydd i derfyn. Yn ystod y nawn, gostegodd y gwynt, a pheidiodd y glaw. Disgynnodd y gwyll fel pluen oddi ar aden y nos. Ac wedi cau'r byd allan, a thynnu'r gadair at y bwrdd, ceir ad-daliad gwych am yr oriau prudd-glwyfus yn ystod y dydd.

Nos o aeaf! os bydd iechyd a chysuron yn eiddo i ni, beth yn felysach ym mywyd dyn? Dyna'r oriau euraid mewn gwirionedd. Nis gallwn ryw fodd, ategu'r dymuniad sydd yn y gan boblogaidd—

O na byddai'n haf o hyd!

Ardderchog ydyw'r "haf hirfelyn, tesog," ond yn sicr ni ddewisem iddo fod yn "weinidog sefydlog." Y mae yntau ar brydiau, yn lled undonnog a thrymaidd. Ar ei gyfer, rhoddwch i ni y gaeaf gweddnewidiol. Dywedwch, os mynnwch, ei fod yn oeraidd, a dibris o deimladau ei wrandawyr. Ond y mae un peth rhagorol yn ei weinidogaeth. Medd ddawn i gadw dyn yn *effro*, oni bydd efe yn aelod cyflawn o seiad y "saith gysgadur." Y mae hynawsedd yr haf yn caniatau i ni gysgu mewn aml i oedfa. Daw rhyw syrthni drosom yn ddiarwybod, a

Melys gorffwys dan las nen,
Ger hen bont bren Cwmdyli.

Ond ar nos o aeaf, a'r tan yn ei wres, a'r lamp yn sirioli'r stafell, nid oes arnom eisiau rhoddi cwsg i'n llygaid, na hun i'n hamrannau. Gallem ddarllen rhyw gymaint o'r hen lyfr parchus hwnnw, "Nos Feddyliau Young." Gyda llaw, gwelsom gyfieithiad ohono i'r Gymraeg—gwaith I. D. Ffraid—ond ni chafodd ei gyhoeddi. Tebyg fod ei gyfnod drosodd. Ac wedi ceisio ail-ddarllen rhannau ohono, rhaid cyffesu nad oedd y bardd yn cyfateb i'w enw *Young* oedd ei enw, ond ychydig o ddelw ieuenctid sydd ar ei farddoniaeth. Y mae ei "nos feddyliau" yn ddifri a dwys, ond nid oes argoel iddo wybod nemor am huodledd a chyfaredd y nos. Dichon ei fod yn ei chymryd yn fwy fel arwyddlun na ffaith sydd yn cael ei gwireddu ym mhrofiad dyn. Ac wrth droi dail memrwn atgof, credwn fod nosweithiau gaeaf wedi gadael argraff ddyfnach ar ein meddwl na hirddyddiau haf.

Dichon mai y rheswm ydoedd—fod mwy o fin ar y meddwl, mwy o ynni yn yr enaid. Onid o wledydd oerion y cafwyd y pethau mwyaf?—y darnau godidocaf,—nofelau, dramodau, a cherddoriaeth? I bwrpas athrylith, gwell gaeaf na haf: oerni'r gogledd na gwres llethol y trofannau. Yno y mae broydd y *lotus-eaters*,—

"A land where it is always afternoon."

Dim bore, dim nos. Clywsom son am y seremoni gymdeithasol a gyfenwir yn y cylchoedd aristocrataidd yn *afternoon tea*. Ond nid ydym yn tybied bod dim gwerth ei argraffu bore drannoeth wedi dod o'r mannau hynny. Dim ond beirniadaeth fach, arwynebol ar bersonau, y gwisgoedd a'r llestri te. Gwareder ni rhag defosiynnau yr *afternoon tea*. Gwlad yn difa ei phreswylwyr ydyw honno, ac yn y trofannau y dylai aros am byth.

Dielch am nos o aeaf. Mae pawb synhwyrol yn llechu yn ei dy ardreth-

ol ei hun, ac yn falch ohono, er iddo fod yn eithaf syml yn ei ddodrefn a'i amgylchedd. Ond yno yr ydym yn gysurus, ac yn mwynhau diddanwch diwedd dydd. Ymffrostiai Kilsby Jones yn y ffaith fod ei dy mewn lle anghysbell. Nid oedd neb yn aflonyddu arno ar nos o aeaf. Caffai lonydd gyda'i waith, a'i fyfyrdodau. Dichon mai hynny oedd yn cyfrif am ei wreiddioldeb. Anodd ydyw meithrin hwnnw mewn pwyllgorau a chynhadleddau anorffen. Plentyn unigedd a nos ydyw athrylith, ac iddi hi y mae'r gaeaf a'i hirnos yn gymwynaswyr diffuant.

Credwn osodiad y "Gyffes Ffydd" —mai "bod cymdeithasol" ydyw dyn, ac nid ydym yn deall fod unrhyw awydd i newid y rhan yma o'r "Gyffes Ffydd." Ond dylid ychwanegu. Os ydyw dyn i fod o ryw werth i gymdeithas, rhaid iddo ddysgu byw yng nghwmni ai feddyliau ei hun. Dyna un o fendithion nos o aeaf. Cewch hamdden i gymryd stoc o ddodrefn eich meddwl, a dod i wybod, i ryw fesur, pa fodd y mae "pethau yn sefyll" ar *premises* ein bywyd ni ein hunain.

Nid wyf fasnachwr. Nid oes gennyf fodur na berfa olwyn ar fy helw. Ond y mae gennyf, fel fy mrodyr llengar, ychydig o "stoc" mewn llyfrau hen, a diweddar. Difyr heno, yng ngoleu'r tan, a'r llusern hwyrol, ydyw bwrw golwg hamddenol ar estyll y llyfrau. Y mae llu ohonynt yn "wynebau hoff," wedi bod yn agos ataf trwy gydol y blynyddoedd, ac ni welais wg ar wedd yr un ohonynt erioed. Y mae tipyn o ol traul arnynt—dyna'r oll. Wynebau hoff! meddwn eto. Onid ydym yn dal i feddwl am lyfrau da fel Charles Lamb :—

"Thank God for good books!"

A dyna oedd barn un o boetau Cymru—Ieuan Brydydd Hir :—

Y cyfaill gore, cofia,
A lleufer dyn yw llyfyr da.

Ond yn y cwmni, ceir nifer o lyfrau newydd. Ac y maent hwythau yn "garedigion oblegid y tadau," ac yn ennill eu lle yn dawel a dymunol. Yr ydym yn cael blas amheuthyn ar eu meddyliau, ac yn teimlo fod ein cyfalaf yn chwyddo, ac nad oes berigl i ni, yn yr ystyr hwn, orfod entro ein hachos yn "llys y methdalwyr."

Dyna ddalen o brofiad dyn cyffredin ar nos o aeaf. Bu yr oriau iddo ef yn oriau cyfaredd, a chaniataer iddo *adrodd* y peth, er nas gall ei drosglwyddo, ond yn amherffaith, i'r darllennydd.

ANTHROPOS.

GELLIONNEN.

(Cofrestri 1767—1838.)

CEDWIR y ddwy gyfrol a gynnwys lawer o fanylion am yr hen gynulleidfa hon yn Swyddfa'r Cofrestrydd Cyffredin, Somerset House, Llundain a "gweithiais" hwynt yn ystod fy aros yno am fy nhrydydd tymor o archwilio yn Nhachwedd, 1898. Yn y foreaf o'r ddwy gyfrol ceir manylion am y tymor 1767 i 1814. Cynnwys

(*a*) "*Names of the Members at Gellionen, 1st January*, 1767.

(*b*) "*Members and those admitted to Communion by Josiah Rees*, 1767 1775."

(*c*) *Christenings since the ordination of Josiah Rees at Gellionen on 5th August* 1767 *to* 1785 *when Stamp Duty Act imposed.*"

(*d*) "*Christenings by Thomas Rees 30th March*, 1806 *to* 13*th July* 1814."

Y mae'r gyfrol werthfawr hon, llyfr poced wedi'i rwymo mewn lledr gwyrdd a chyda dau glespyn pres wedi'i chadw'n rhagorol a hyd y gwn i nid oes un hanesydd nac ysgrifennydd ar Forgannwg na Gellionnen wedi'i defnyddio na'i "gweithio" ychwaith.

Cynnwys yr ail gofrestr nodiad gwerthfawr iawn yn llawysgrif y Dr. Thomas Rees (1777—1864) mab Josiah Rees ac un o'r Dirprwywyr Brenhinol; dyledswydd y rhai hyn oedd ardystio y Cofrestri Amhlwyfol fel y'u gelwid a anfonid i fyny yn 1837 i Swyddfa'r Cofrestrydd Cyffredin yn Llundain oddiwrth gynulleidfaoedd anghydffurfiol yn Lloegr a Chymru er eu cadw gan y Llywodraeth a'r rhai a dderbynnid yn dystiolaeth gyfreithlon ar yr un tir a Chofrestri'r Plwyf dan ddeddf gwlad ar y 10 o Awst 1840 (3 and 4 Vict. Cap. 92.)

Yr oedd gan Dr. Rees fel un o'i gyd-Ddirprwywyr Brenhinol Undodwr arall ym mherson hen gyfaill gwir a ffyddlon fy nhad Sir John Bowring awdur yr emyn adnabyddus "*Yng nghroes Crist y gorfoleddaf.*" Gyda'i gilydd y maent wedi llawnodi y mwyafrif mawr o'r Cofrestri amhlwyfol sy'n naeargelloedd sychion Somerset House ac yr wyf wedi archwilio yn agos i fil ohonynt er imi ddechreu yn 1897. Cyhoeddir y nodiad amhrisiadwy hwn am Gapel Gellionnen am y waith gyntaf ond odid yma:

"Cofrestri Geni a Bedyddio yw'r ysgrifau cysylltiedig wedi eu cadw ar ran Cynulleidfa o'r enwad Presbyteraidd yn ymgynnull yn Nhy-Cwrdd Gellionnen ym mhlwyf Llangyfelath yn Sir Forgannwg a sefydlwyd yn y flwyddyn 1692 ac y mae'n fyw heddiw. Cynnwys y Cofrestri dair ysgrif fel y canlyn,—

1. Y gyntaf, llyfr wythblyg wedi'i rwymo mewn memrwn gwyrdd yn proffesu bod 'Yn Gofrestr wir o'r bedyddiadau er ordeinio Josiah Rees yng Ngellionnen Awst 6, 1767.'

Dechreu'r cofnodion yn 1767 a diwedda'r gyfres yn 1785 pan ddaeth Deddf yn gosod treth (Stamp Duty) ar Gofrestr Bedyddio i rym.

Ar y tair tudalen gyntaf o flaen y teitl uchod y mae cofnodion o fedyddiadau yn llawysgrif Mr. Josiah Rees (fy nhad) ond nid o fedyddiadau a weinyddwyd ganddo ef ei hun ond eiddo gweinidogion eraill Gellionnen. (Bedyddiadau William Edwards, 28 Mawrth 1767, addysgwyd yng Ngholeg Presbyt., Caerfyrddin: gweinidog Tisbury, Wilts. 1734—1761. Coseley 1761—1775: ac eiddo Solomon Harries, addysgwyd yng Ngholeg Presbyt. Caerfyrddin: gweinidog Abertawe 1751—1785.) (G.E.E.)

Cyn ei ordeinio ef, ac yn unol a disgyblaeth y Presbyteriaid, ei awdurdodi i weinyddu'r ordinhad.

Dyddir y cofnod cyntaf o'i fedyddiadau ef ei hun 9 o Awst, 1767 a'r olaf o gofres reolaidd y cofnodion ar y Cyntaf o Fedi, 1785.

Yn union ar ol hyn y ceir rhai nodiadau a chofnodion o fedyddiadau yn 1785 a 1786, a chofnodwyd y mwyafrif o'r rhai hyn yn rheolaidd yn y Gofrestr Awdurdodol (Stamped).

Wedi'r cofnodion hyn am 1786 ceir cofnodion o rai a fedyddiwyd gennyf i fy hunan ac wedi'u harwyddo gennyf. Dyddir y cofnod cyntaf y 30 o Fawrth, 1806 a'r pedwar sy'n dilyn yn ystod yr amser byr (1805—1806 G.E.E.) y gwasanaethais i'r gynulleidfa, ynghyd a chofnodion o'r rhai a fedyddiais ar fy ymweliadau achlysurol a'm teulu.

2. Llyfr o ddail unplyg yw'r ail ysgrif yn cynnwys ffurflenni stampiedig er cofrestru Bedyddiadau, a dechreu'r cofnodion yn 1785 gan ddiweddu gyda 1791. Y maent yn llawysgrif fy nhad gyda'r eithriad o ychydig fedyddiadau a weinyddwyd gan eraill yn ei le ac a lawnodir ganddynt.

3. Yn drydydd. Cynnwys y drydydd ysgrif sy'n awr wedi'i hatodi i'r ail, bedair tudalen unplyg (foolscap) o gofnodion o Fedyddiadau o 1791 tan Ragfyr 1798. Dwg y cofnodion hyn enw fy nhad Mr. Josiah Rees ond nid yw'r cofnodion na'r enw yn ei lawysgrif ef. Cofnodid y bedyddiadau fel y'u gweinyddid ganddo yn ei ddyddlyfr gyda'r amcan o'u hail ysgrifennu'n rheolaidd yn y Gofrestr. Ond oherwydd gwanychu o'i iechyd ni wnaeth mohyn. O'r diwedd ceisiodd gan ei ferch, un o'm chwiorydd i gopio tan ei gyfarwyddyd a'i arolygiaeth bob cofnod o 1791 hyd 1798 ar y tudalennau hyn.

Y mae'r Gofrestr hon er heb ei hysgrifennu na'i harwyddo gan fy nhad yn ysgrif berffaith ddilys eto, oherwydd ei hysgrifennu dan ei gadarnhad a'i awdurdod union-gyrchol.

Cedwid yr ysgrifau hyn bob amser gan fy nhad yn ei gartref yng Ngelligron—ty ym mhlwyf Llanguke, Sir Forgannwg rhyw ddwy filltir o'r Capel.

Ar ei farw yn 1806 daethant i'm meddiant i fel rhan o'i bapurau. Ar fy ymadael am Lundain yn 1806 er hwylustod i gael tystysgrifau pan fai galw fe'u gadawyd yng ngofal fy mam, ac wedi ei marw fe'u cadwyd o hyd yn nghrigfa'r teulu yng ngofal fy chwiorydd. Oddiwrthynt hwy y'u cymerais i'r amcan o'u trosglwyddo i Swyddfa Dirprwywyr y Cofrestru.

Nid oes Gofrestr arall o eiddo fy nhad ar gael hyd y gwn i, gydag yn unig eithrio rhai cofnodion achlysurol o fedyddiadau a geir yn rhannau o'i ddyddlyfrau, ac nid oes gofrestr yn bod heb y rhai a anfonir yn awr wedi'i cadw dros gynulleidfa Gellionnen."

THOMAS REES,
Un o Ddirprwywyr y Cofrestru,
39, *Woburn Place*,
Russell Square,
17 *Mehefin*, 1838.

* * *

Bu farw Josiah Rees, Medi 20, 1804 wedi bod yn weinidog Gellionnen o 1765 hyd ei farw. Efe oedd sefydlydd y Cylchgrawn Cymraeg Cyntaf. (Rhaid i ni eithrio cynnyg un o Forusiaid Môn.—Gol.). Yr oedd un o'i feibion, Owen, yn aelod (partner) o dy cyhoeddi Longman a'i Gyf. Fel y'u croniclir yn y gofrestr, cynhwysai'i deulu—

"Owen, ail fab, ganwyd Hyd. 5, 1770 : bedyddiwyd Hyd 18, gan Joseph Simmons.
Hester, trydydd plentyn, gan. Gorff. 18, 1772 : bed. Awst 1, gan Solomon Harries.
Josiah, 4ydd plentyn, g. Gorff. 16, 1773 ; bed. Awst 6 gan David Davis.
Hester, 5ed plentyn, g. Tach 20, 1775 ; bed. Rhag. 15 gan Solomon Harries.
Thomas, 6ed plentyn, g. Medi 1777 ; bed. gan Solomon Harries.
Hannah, merch, g. Awst 27, 1779 ; bed. Medi 20 gan Solomon Harries.
Richard, mab, g. Awst 4, 1781 ; bed Awst 17 gan David Davis.
Sarah, merch, g. Mehefin 24, 1783 ; bed. Gorff.12 gan Thomas Morgan.
Samuel, mab, g. Mai 21, 1789 ; bed. Mehefin 7 gan Philip Charles."

Genedigol o Sir Gaerfyrddin oedd Josiah ei hun, wedi'i eni ar Hydref yr Ail, 1744 ym mhlwyf Llanfair ar y bryn. Bu'n briod ddwywaith a charaswn wybod enwau a theuluoedd ei wragedd. Enw bedydd yr ail wraig oedd Mari (Bu farw yn 1829 yn 82) ac ni chofnodir yn y gofrestr eni na bedyddio eu merch a enwid Mari. Priododd John Richards. Caiff Josiah le yng Ngeiriadur Mawr o Fywgraffiad Cenedlaethol wedi'i osod yno gan Rees Jenkin Jones, M.A., Golygydd blaenorol "YR YMOFYNNYDD."

GEO. EYRE EVANS,
Ty Tringad,
Ger Aberystwyth.

'SLAWER DYDD.

(Stori Fer.)

"HANNER can mlynedd, ie hanner can mlynedd i heno!" Gwylltais o glywed fy llais fy hun. Swniai'n oer a phell. Methwn ddyfalu ystyr y geiriau nes edrych i'r tân. Ynddo fe'u gwelwn: gweld bro fy mebyd a'm cyfoedion 'slawer dydd. Ar war yr allt saif Blaentir a'i welydd fel y cambric. Ger y drws tyf yr Hen Wr ac yn y border bach y ddalen fraith. Y mae'r ffenestr a'i gwydr fel y grisial ar agor: peth hynod 'slawer dydd! Wele Mali a'i ffedog wen! Ni ddaw Mali i ben y drws heb ffedog wen. Credir fod rhywbeth yn uchel ym Mali Blaentir oherwydd nad bugail oedd Ianto Mali fel y'i gelwid ac yntau'n ddeuddeg oed. Chwarter o Ysgol a geffid gynt a phe cawsech ddau gwarter o'r bron, yr oedd yn union fel ennill gradd heddiw. "Eto dyma Ianto Mali wedi cael dwy flynedd solit o ysgol" chwedl Pryfoc.

"Heb wneuthur stroc o waith erioed!" meddai Wil Dal.

"Mae Mali'n slafo hwyr a bore er ei gadw a'i drwyn yn ei lyfr ac yn dda i ddim," tystiai Sar Segur.

Yr oedd yr ardal wedi hen flino ar eu difrio. Yr oedd y Boes hwythau wedi cynefino ag Ianto Mali fel y cynefinir a chornwyd, ond pan ddeallasant ei fod yn cynnyg am swydd o Ysgrifennydd y Clwb, dyna dân yng nghornel yr allt.

Ymhell cyn son am Insiwrans yr oedd gan y pentre *glwb* ond yr oedd y Boes yn medri torri'r clwb fel torri'r banc ym Monte Carlo. Gwneuthur stroc o waith ag arian yn y Clwb! Yr oedd hynyna'n amhosibl—i'r Boes Yr oedd pawb yn eu hadnabod a hwy oedd y Clwb. Ni phasiai undyn heb ei weld. Gwyddent hanes y byd a'r betws. Yr oedd yn berigl troi rhag ofn ennyn eu gwg. Hen lanc oedd Wil Dal yn byw gyda'i fam, neu yn hytrach yn byw ar gefn ei fam neu ar y Clwb. Gwaddotwr ydoedd, neu dyna ddywedai ef o leiaf, ond ni fedrwch goelio pawb. Yn y pentre stiward y Clwb y'i cyfrifid. Caech ei weld hwyr a bore yn cnoi 'baco main a dal pen rheswm a rhywun a wnai ddim byd fel yntau. Tra gwahanol oedd y Sar Segur. Fe'i caech am ambell hanner awr yn ei weithdy, ond er hyn nid oedd yn werth iddo newid ei enw. Gwr byr a barfog ydoedd a'i weithdy'n gyfleus i'r Boes. Arall eto oedd cymeriad Dic Shalangs. Er y cof cyntaf am Dic, yr oedd perigl ei groesi: ofer pob rheswm: Llwybr tarw oedd llwybyr Dic a phen draw pob dadl a ffrae oedd *Shalangs*. Hen leban corffog ydoedd ac un olwg arno yn ddigon i beri braw a dychryn. Dyn bach eiddil oedd Pryfoc, a'i lygaid a'i drem fel y cadno. Ni wastraffai eiriau, ond yr oedd rhyw wên o wawd yn chwarae byth a beunydd dros ei wyneb. Rhyw frathu byddai Pryfoc a duach y clais drannoeth wedi brath Pryfoc na dyrnod Dic Shalangs.

Yn rŵm y Clwb benbore wele'r Boes, a rhwydd casglu fod rhywbeth yn y gwynt.

"Rhyw fabi'i fam fel yna i ordro'r Clwb! Does dim sens ynddo," ebe Wil Dal, a chesglid mai Ianto Mali oedd dan y gyrdd y bore hwn.

Ni ddywedodd Sar Segur ddim; "*grondo own i*," chwedl yntau. Ni fedrai Dic siarad. Nid oedd y peth yn ei lein. Ni fedrai roi shalangs i lanc deuddeg oed. Buasai'n ormod o Ddafydd a Goliath. Ni cheid dim ohono chwaith ond testun chwerthin. Gwyddai Dic hynny a chnoai'r baco main yn ffyrnicach a'i ddannedd melyn, dyna'i gyd. Am Pryfoc ar y llaw arall, yr oedd yn ei elfen. Chwareuai'i lygaid yn ei ben, ac o gredu mewn datblygiad, rhaid credu fod Pryfoc wedi aros ar y llwybr yn gadno. Yr oedd ei wên a mwy o wawd ynddi, yn fwy pryfoclyd os dim. Ysgyrnygai'r lleill eu dannedd. Nid felly Pryfoc. Ni wnai ond dal i wenu.

Yr oedd cynllun yn ei ben a chynllwyn yn ei galon. Sisialodd ei gyfarwyddiadau yng nghlustiau'r Boes ac aeth i'w ffordd dan wenu, ac yr oedd gwenwyn yn ei wên.

Yr oedd pethau wedi mynd yn anniben yn y Clwb am yr ail waith mewn llai na blwyddyn. Penderfynwyd apwyntio ysgrifennydd i'r Clwb. Boddlonodd y Boes. Pryfoc oedd wedi cymryd y gofal a'r arian ta waeth.

Ni freuddwydiasant y buasai neb yn cynnyg am dani ond Pryfoc, ond dyma enwi Ianto Mali. Yr oedd yn *fwy* a *llai* o scoler na Phryfoc. Chwarddai'r Boes ar y dechreu ond erbyn hyn yr oeddent yn ysgyrnigo dannedd a malu ewyn. Yr oedd hyn yn arwydd dda fod Ianto Mali'n ennill tir, a heno y mae'r fotio.

Am unwaith bu'r Sar Segur yn brysur ddigon, ac yr oedd yn gweithio a'r drws ynghau. Pan agorwyd drws y Clwb yr oedd *bocs* newydd ar gadair o flaen y tân. Wil Dal oedd y *Returning Officer*, wedi'i apwyntio gan y Boes. Nid oedd farc na stamp ar bapur neb. Nid oedd dwyll ellid tybio 'slawer dydd. Dim ond dau enw—enw Ianto Mali a Phryfoc wedi'u hysgrifennu gan y Boes yn dra thebig i goesau brain chwedl yr hen bobol. Nid oedd dim am dani ond rhoi croes (X) a phlygu'r papur a'i osod yn y bocs. Doi'r aelodau'n gyson, gyson, ac yn ddistaw. Pob un wedi gwisgo'i ddillad Sul a phob un yn gwybod ei feddwl ei hun. Synnid nad oedd Pryfoc i'w weled yn unman, ac fod Wil Dal yn rhoi cnoc ar y ford am bob papur ae i'r bocs.

Ymhen dwyawr yr oedd yr etholiad drosodd: dim ond cyfrif y pleidleisiau. Yr oedd y distawrwydd wedi mynd a dim ond cleber a berw ymhobman, ac yr oedd Pryfoc wedi dyfod o rywle heb yn wybod i neb. Ni feddyliodd neb lawer. Nid oedd amser, ond yr oedd ei wên yn fwy faleisus nag arfer, dyna i gyd. Yn y llwydolau gallasech feddwl mai pon a llygaid cadno a welech, a dyna oedd cadno dwycoes. Yr oedd yn berffaith dawel, yn berffaith sicr o'r *result* cyn dechreu cyfrif, a gallasai fod. Nid oedd ond un yn y rhedeg a Phryfoc oedd hwnnw. 'Roedd pawb yn fud. Medrech deimlo'r distawrwydd. Nid edrychai neb i wyneb y llall oherwydd ofni canfod y twyll. Nid oedd raid iddynt. Troes pawb tuag adref fel ar ddiwrnod angladd cyfaill, a'r Boes yn llongyfarch Pryfoc, ac yr oedd yn haeddu hynny.

Wedi ymadael o'r aelodau i gyd a chau drws y clwb, edrychodd y Boes ar ei gilydd. Nid oeddent yn ei deall hi. Nid oedd neb ond Pryfoc. Yr oedd ef fel Sherlock Holmes.

"Y mae rhyw fysteri i mi yn y fotio heno. Nid wyf yn deall. Yr oedd pawb yn siarad dros Ianto Mali ac yn fotio tros Pryfoc," meddai Dic. Dyn syml ydoedd Dic. Yr oedd yn onest, a chwarae teg iddo.

Gwenai Pryfoc.

"Paham y ceisiaist gennyf gnocio'r ford bob tro yr ae fôt i'r bocs?" gofynnai Wil Dal.

Gwenai Pryfoc.

"Beth oedd amcan y ddau focs cyn debyced i'w gilydd a dau efell fel na fedrai dewin dynnu'r naill oddiwrth y llall?", oedd cwestiwn y Sar Segur.

Yr oedd syndod yn nhrem y Boes, ond gwenai Pryfoc. Ymhen ennyd ciliodd y wên o wyneb Pryfoc a dywedodd,— "Nid y fi enillodd ond *diawlineb*. Ffars oedd y foto. Ni chefais i fôt am bob pump i Ianto Mali. Gwyddwn hynny ar y dechreu ac nid oedd dim am dani ond *diawlineb*. Yr oeddwn yn y rŵm nesaf ac am bob cnoc a roit Wil Dal ar y ford ae fôt i Pryfoc i'm bocs i."

Deallasant y cnocio a'r ddau focs.

"A chofiwch Boes," meddai Pryfoc, "*bocs Pryfoc a gowntiwyd heno*." Chwarddai'r Boes yn galonnog a gwenai Pryfoc. Ni bu'r chwerthin yn hir. Ni ddoe arian i'r Clwb fel cynt a bu Pryfoc fel y Sar yn *segur* yn hir.

* * *

Y mae'r Boes wedi mynd lle nad oes fyw ar glwb ers llawer dydd.

"Hanner can mlynedd, ie hanner can mlynedd i heno," ond yn y fflam lasolau gwelaf y ddau focs, y Boes a Phryfoc yn gywir fel 'slawer dydd.

M. O. Davis.

MYDRYDDWYR Y SALMAU.

Y Sallwyr yw'r pennaf o lyfrau defosiynnol y byd. Mai ei ddelw a'i liw ar bob casgliad o emynau a gyhoeddwyd yn yr iaith Gymraeg. Prydyddiaeth yw, a gwnaed llawer cynnyg i'w fydryddu yn rhannol neu yn gyflawn. Aeth amryw o honynt ar goll, ac o'r braidd y gellir dweyd bod y rhai sydd ar glawr yn wybyddus iawn, ag eithrio Salmau Cân Prys. Y cyntaf ar y rhestr sydd gennyf yw Dafydd Ddu Hiraddug. Ym marn y chwilotwyr blodeuai o gylch 1350. Dywedir ei fod yn beriglor Tremeirchion, ac yn un o urddasogion Llanelwy. Rhoes gryn lawer o sylw i'r acen Gymreig. Am ei fod yn wr gwybodus cyfrifid ef yn ddewin. Yn y Myfyrian Archaiology of Wales" rhoddir ei ddetholiad o 28 o'r Salmau. Fe'i tynnwyd o "Wasanaeth Mair," a thebyg ei ysgrifennu yn y wedd sydd arno tua dechreu'r 16 ganrif, pan oedd yr iaith yn newid i'w ffurf ddiweddar. Mae Salm 95 mewn Pros, a'r lleill mewn rhyw fath ar fydr. Daeth y detholiad hwn i lawr fel maen treigl o oes arian y Catholigiaid y'Nghymru.

DARNAU ENGREIFFTIOL.

Yr unig newid a wnaed ar adysgrif y Myfyrian yw chwanegu'r atalnodau er mwyn y darllenydd anghyfarwydd.

Salm 95.

Deuwch ymddyrchafwn wrth yr Arglwydd, canwn i Dduw ein iachawdwr ni. Rhagachubwn ei wyneb ef ynghyffes, a chanwn Sailm iddaw. Canys Arglwydd mawr yw Duw, a brenin mawr ar yr holl dduwiau, can ni wrthladd yr arglwydd ei blwyf, canys yn ei law ef y mae holl derfynau y ddaear ac ef a edrych uchelder y mynyddoedd. Canys ef a biau y mor ac a'i gwnaeth, ai ddwylaw a seiliawdd y dywarchen. Deuwch, addolwn a syrthiwn rhac bron Duw, wylwn yngwydd yr Arglwydd a'n gwnaeth. Canys ef yw ein Harglwydd ni, a ninnau yw ei bobl ef, a defaid ei borfa ef. (1—7).

Salm 24.

Pwy a esgyn ar fynydd yr Arglwydd,
Neu pwy a saif yn ei sancteiddrwydd ?
Diargywedd o ddwylaw a glan o galon,
A diorwag ei enaid a difrad i'w gymmydogion.
Hwn a gaiff fendith gan y creawdr
A thrugaredd gan Dduw ei Iachawdr.
Hon ydyw'r genhedlaeth a'i cais efo,
Ac a wyl wyneb Duw, Arglwydd pobl Iago. (3—6).

Salm 100.

Pob tir cenwch foliant i Dduw dofydd,
Gwas'naethwch iddaw trwy lawenydd
Deuwch i mewn yn ei wydd ger ei fron
Yn hu lawen o lawenydd calon.
A gwybyddwch mai'r Arglwydd yw Duw ein rhi,
Nid hwynt'wy namyn efo an gwnaeth ni. (1—3).

Salm 148.

Molwch yr Arglwydd o'r nefoedd,
Molwch ef uchelion leoedd.
Molwch ef ei holl engylion,
Molwch ef ei nerthoedd gleinion.
Molwch ef yr haul a'r lleuad,
Molwch ef ser a goleuad.
Molwch ef nefoedd y nefoedd,
Molwch ef ddyfredd i ar y nefoedd.
Canys ef a ddywawd ac hwynt a wnaethpwyd,
Gorthmynnawd ef ac hwynt a grewyd. (1—5).

SION TUDUR (? 1522—1602).

Anelwig yw hanes ei fywyd. Myn rhai ei fod yn arweinydd y cor yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Dywed Arthiagon Bangor (A. O. Evans) nad oes un praw o hynny yn y Cofnodion, ac awgryma y gallasai fod yn athro yn Ysgol Ramadegol yr Esgobaeth. Beth bynnag am gywirdeb y dyfaliadau gwyddis bod Sion yn fardd, oblegid gwnaed ef yn Ddysgybl Pencerdd yn ail Eisteddfod Caerwys (1568). Heblaw plethu Cywyddau mydrodd rai o'r Salmau, ac y mae deg o honynt ar glawr.

DARNAU ENGREIFFTIOL.

(*O Lawysgrifau Mostyn*).

Salm 1.

Dedwydd yw'r gwr diwidwaith
Ar ni rodiodd mewn modd maith
Wrth gyngor dy gyfor dig
Anuwolion an welig
nag yn ol anuwiol naid
dyras ffordd bechaduriaid
nag eiste ar gyfle gwych
y gwatwarwr . . taerwych
ond rhoi ei fryd hwnt trwy frawder
ar gyfraith dawn waith Duw ner
a myfyrio mwy fowredd
gair Duw fyth oi grud yw fedd.

Salm 121.

Codaf fy ngolwg hoewdeg
mwynwedd tua'r mynydd teg
or hwn fynydd purffydd porth
wedi ngham y daw nghymorth
fymborth cymorth rhag camwedd
a ddaw o law Dduw a'r wledd
hwn a wnaeth yn iawn weithion
y nef a'r ddaear gref gronn
hwn ni ad mewn treiglad traw
dyrd i lethr ith droed lithraw
hwn ath geidw rhag direidwaith
hwn ni chwsg na hunaw chwaith.

EDWARD KYFFIN.

Cudd yw ei hanes, ac ni wyddys gymaint ag enw ardal ei enedigaeth, na dim am ei dylwyth. Dywedir iddo fydryddu hanner cant o'r Salmau, er nad oes ar glawr namyn tair ar ddeg. Cyhoeddwyd y rheiny ynghyd a rhagymadrodd wedi ei lawnodi ganddo ef ei hun. Wele'r teitl:

"Rhann o Psalmae Dafydd Brophwyd iw canu ar ol y don arferedig yn Eglwys Loegr."

Simon Stafford ai printiodd yn Llunden dros T.S. 1603.

Yn y Rhagymadrodd dywed y mydrydd iddo "ddechre cynghaneddu hynn o Psalmae yn nesa ag ellais at feddwl yr Ysbryd Glan, fel y cefais hwynt yn scrifennedig yn y Scrythurae. Mi a roes y Psalmae pres (sic) ar gyfer y cynghanedd, ag a adewais le rhwng pob vers ai gilydd or cynghanedd, fel y gallo rhai celfyddach gymhennu a pherpheithio hynn a wneuthym i o fras-nodiad, er praw yn unig, ag er annog eraill a fedrant yn well ei hailddiwygu hwynt"

Dewisodd fesur rhydd mewn enw, er mai math ar gywydd yw fel y dengys y darnau sy'n dilyn.

Salm 1.

Dyn ni rodio dedwydd yw
ynghyngor an-nuw ddynion
yn ffordd pechadwyr ni sai,
ni steddai'n stol gwatworion.
Ond ei holl ddifyrwch sydd
yng-hyfraith Arglwydd nefol;
Ag yn unrhyw gyfraith rydd
mae beunydd yn fyfyriol.

Salm 2.

Pam i codant derfysc floedd
cenhedloedd o gynddaredd;
a'r Iddeon bobl gau
ai bryd ar wau oferedd.
Brenhinoedd a phennaethiaid byd
Maent yn cyd-gynghori:
yn erbyn yr Arglwydd rhawg
ai Grist eneiniawg Geli.

Salm 8.

Pa beth yw dyn (gwael-ddyn gau)
it iw goffau ai wilied?
A mab dyn (dayaryn lef)
i ti ag ef ymweled?

Salm 11. ?

Cans yr Arglwydd cyfiawn gwar
fyth a gar gyfiawnder:
Ai wynebpryd tirion iawn
a genfydd rhai iniawn-ber.

Salm 13.

Edrych, o Arglwydd, a chlyw
fi, fy Nuw, goleua
fy llygaid, rhag imi bo
blino yn angau dua.
Rhag doedyd om gelyn lais
gorchfygais ef: o herwydd
fyng-wrthneb-wyr llawenhant
os llithrant draw fy sodlydd.
Fy 'mddiried ith drugaredd sydd,
fy llawenydd ith iechyd:
i Dduw am synnio arnaf
canaf, canaf dragwydd-fyd. (3—5).

Terfyn ar hyn: hyd oni threfno Duw gymmorth ymhellach.

Dyna'r frawddeg olaf yn llyfryn Edward Kyffin.

Wm. Griffiths.

Southgate,
Aberystwyth.

GYLCH Y FORD FACH.

BRO FY MEBYD.

" Dyw hi ddim yn nos eto
Pa eisiau mynd i'r ty ?
Mae'r da ar y clos eto
Ac mae darn o'r dydd ar y rhos eto.
Gw-di-hw, Gw-di-hw.
Ydyw, mae'n gystal mynd i'r ty.

" Dere at dy fwyd, Guto,"
Bwyd a llais tirion mam ;
" Wyt ti'n edrych yn o lwyd, Guto "
" Na, 'rwy'n burion, mam."
" Wyt ti bachgen tlws, Mam ? "
Gw-di-hw, Gw-di-hw.

Tynnu nillad a'u rhoi i gyd
Yn swp ar y gader eto,
Ar gysgu, a'r byd yn troi i gyd
A'i hwyl a'i helynt yn ffoi i gyd—
Gw-di-hw, Gw-di-hw,
Codi at y gader eto
I ddweyd fy mhader eto,
Gw-di-hw, Gwdi--hw.
"Ein Tad yr hwn wyt yn y Nefoedd."

WIL IFAN.

ROBERT OWEN.

"YMHOB gwlad y megir glew," meddir, ond y gamp yw ei adnabod. Nid mewn dydd yr edwyn gwlad ei glew. O edrych ar restr enwogion gwlad, amheuwn hawl llawer un ohonynt erbyn heddiw, a gwelwn mai termau cymharol yw " anrhydedd " a " chlod." Y mae meddwl gwlad yn newid a'i safonau o brisio hefyd. Nid yr un yw calon cenedl heddiw a'r oesau gynt. Nid yr un yw ei syniad am fawredd dyn. Codir llawer enw o'r llwch gan beri iddo " eistedd yn uwch i fyny " ; ac i'r gwrthwyneb. Nid yr un arwr efelychir gan ieuenctid Cymru a chynt. Ddoe arwyr cledd a chyfoeth ac enwogrwydd berchid. Heddiw cofir arwyr y pen a'r galon ac arwyr y mannau cudd. Nid yw arwr y golofn am y tro ddim amgen nag enw i'r mwyafrif o honoch. Nid oedd yn *lein* ysgrifennwyr hanes y dyddiau gynt. Heddiw fel yn Athen gynt plyg gwerin ger allor " *y dyn nid adwaenir*," ac ystyrrir Robert Owen yn un o ddynion mawr ei oes. Y mae'n amheus a oes Gymro i'w gymharu ag ef fel Diwygiwr Cymdeithasol, fel gweledydd craff ac fel Apostol Llafur. Yr oedd wedi deall yn well nag odid neb yn ei oes, ac am a wn i heddiw, berthynas gweithiwr a pherchennog a phroblem llafur a chyfalaf. Gwyr llawer am Karl Marx ond ni wyr Cymro am ei braffach yn ei wlad ei hun.

Ganwyd Robert Owen yn y Drenewydd, Sir Drefaldwyn ar y 14 o Fai, 1771, a rhwydd casglu ei fod wedi deall y problemau drwy'u profi. Ymdrech ddiflin yw hanes bore'i fywyd ac fe'i ceir yn 19 mlwydd oed yn Reolwr Gweithfa Gotwm a phum cant yn gweithio dano. Ymhen deng mlynedd yr oedd yn Reolwr a *Phartner* yng ngweithfeydd Cotwm New Lanark. Dyma gyfle'i fywyd !

Trist yw ei ddarlun o blant yn gweithio oriau meithion yn y ffatriau ac yn methu cadw ar ddihun oherwydd y blino, a thruenus yw'r darlun o'r goruchwylwyr yn gorfodi gwaith. Arferid edrych ar y *dividend* ond mynnai'r Cymro ieuanc hwn gadw'i olwg ar ddynoliaeth. Dug egwyddor newydd i weithredu. Gofelid am y peiriannau ond credid nad oedd dyn ond i'w weithio a'i *scrapo*. Canfu Owen na ellir disgwyl y gwaith goreu ond oddiwrth weithwyr hapus, llwyddiannus a dysgedig : Credai o thalai i edrych ar ol peiriant y talai i edrych ar ol *dyn*. Ni freuddwydiai'r perchennog fod hawl gan y gweithiwr ar ran o'r proffid. Ond iddo ef gael ei gyflog, ac yr oedd yn ddigon i'w gadw ef a'i deulu rhag newyn hwyrach, yr oedd popeth yn dda, ond mynnai Owen fod y cyfan dros ben pum punt y cant i fynd yn ol er codi safon y gweithwyr. Edrychid arno yn ei ddydd fel dyn o gynlluniau gwyllt ond doe pobl o bell ac agos

fel y Tsar o Rwsia i weld ei gynlluniau'n gweithio. Erbyn heddiw y mae'r wlad yn addfetach iddynt, a phan sonir am Ddiwygiad Cymdeithasol nid yw ond megis mynd yn ol a chymryd at brogram yr hen Gymro o'r Drenewydd.

Sylfaen ei gynlluniau oedd y "ffurfir cymeriad dyn drosto ac nid ganddo." Ni chytunir ag ef heddiw am ei fod yn anwybyddu'r rhywbeth cyfrin hwnnw a elwir personoliaeth. Yn y flwyddyn 1816, y cyhoeddodd ei lyfr, "*New Views of Society*," un o'r pamffledau politicaidd ac economaidd mwyaf nodedig y dydd, a theg yw dywedyd ei fod yn rhagweld prif ddiwygiadau cymdeithasol y can mlynedd nesaf, megis (i) Ysgolion ansectyddol; (ii) cwtogi oriau gweithio a gwahardd cyflogi plant; (iii) problem y diwaith; (iv) diwygio treth y tylawd; (v) diwygio carcharau; (vi) lleihau rhif y trwyddedau; a (vii) dileu culni crefyddol a rhyfel.

Y mae hunangofiant Robert Owen yn un o lyfrau bach mawr, ac y mae'n dangos enaid y werin yn noeth. Y mae'n ddarlun nid yn unig o fywyd gweithfaol y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ond hefyd o obaith calon Cymro gonest a hirben a Diwygiwr Cymdeithasol mwyaf ei oes ond odid a fu farw ar y 17 o Dachwedd, 1858.

Medr Cymro ieuanc anghofio llu o'r arwyr a geisir ganddo eu cadw ar gof ac am a wn i y buasai'n fantais iddo wneuthur hynny, ond y mae pob Cymro ar ei golled, beth bynnag fo'i gred boliticaidd, oni wyr rywbeth o hanes bywyd Robert Owen.

AIL DAITH PAUL.

Ni chaniata gofod ond awgrym neu ddau. Y mae araith Paul yn yr Areopagus er wedi'i gosod gyda'i gilydd gan Luc yn sicr o fod yn dwyn delw meddwl Paul ei hunan. Wedi galw sylw at Allorau yr Atheniaid y mae'n troi i'w hannerch gan ddywed yd (i) Un Duw sydd, creawdwr a chynhaliwr bywyd (ii); fod y greadigaeth felly oddiwrth un achos: (iii) fod dynoliaeth yn un o ran ei nhatur, yn un o ran ei hysbrydiaeth grefyddol a dylasai felly ddod yn un mewn cred ysbrydol, teilwng o'i dechreu dwyfol. Y mae'r unoliaeth hwn hefyd o angen edifeirwch yn ogystal ag y bydd unoliaeth barn trwy Grist, a dyna'r prawf yw'r atgyfodiad o feirw.

Ni ddisgwylir ond odid nemor o esboniad ar yr *Epicureaid*, ond da gwybod yr ystyrient mai nod bywyd ond ceisio pleser ac osgoi poen. Ceir awgrym fod dau ofn ar Ddyn, ofn marw ac ofn y duwiau ond nid oedd angen ofni oherwydd wedi marw eir i ddifodiant ac nid ymyrra'r duwiau a bywyd dyn.

Y mae'r *Stoiciaid* ar y llaw arall yn fwy'u dylanwad. Enaid y byd ydoedd Duw, rhyw dan yn treiddio drwy bob peth. Byw yn unol a natur oedd amcan dyn. Y mae'r gwr doeth yn dofi'i nwydau gan ddiystyrru pleser a phoen. Y mae'r ystyr wedi newid llawer yn nhreigl amser ond diddorol sylwi fod y Stoiciaid diweddar yn dysgu "*Brawdoliaeth dyn*."

N.N.

PRIODAS.

Chwefror 24, yng Nghapel Shiloh, Llanbedr, gan y Parchn. W. Ll. Davies, (y gweinidog), Dan Jones a T. O. Williams, M.A., ac o flaen y Cofrestrydd Mr. Enoch Davies, unwyd mewn glân briodas Mr. Jack Jones, Modurwr, Arfon, Llanbedr, a Diana May Richards, Heol y Bont, Llanbedr (merch hynaf y Cynghorwr a Mrs. Morgan Richards). Hir oes a phob dedwyddyd i'r ddeuddyn ieuanc.

I ddau siriol mae'n ddydd goleu—yn
Serch yw'r *ffortiwn* oreu: [sicr
O cherwch joke y chwareu,
A *Joke* am oes Jack a May.

MARWGOFION.

Rhagfyr 29, yn 75 mlwydd oed, Mr. John Jones, Glasfryn Pontsian. Bu yr ymadawedig yn byw yn y Rheol Pontsian, a'i rieni o'i flaen ac fel John Jones, Rheol yr adnabyddid ef gan bawb yn y cylch. Gwr gostyngedig a diniwed ydoedd, ac un na wnai gam a'i gymydog. Ni chafodd ddawn i fod yn amlwg mewn byd nac eglwys, er hynny yr oedd yna ffyddlondeb yn ei gymeriad mewn llawer cylch. Anfynych y buasai ei sedd yn y capel yn wag ar y Sul, er fod ganddo gryn bellder i deithio ac efe wedi croesi oedran yr addewid. Gadawodd mewn galar o'i golli—frawd a chwaer, gyda'r hon y cartrefai, a pherthynasau eraill. Gosodwyd yr hyn oedd farwol ohono ym mynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Gweinidog, a chynorthwywyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

Ar y 4 o Chwefror, yn 72 oed, bu farw Mary Lewis, Cross Inn, Llanwnnen, ar ol tuag wythnos o gystudd, gan adael dau fab, nifer o wyrion, tri brawd ac un chwaer, a nifer luosog o berthynasau mewn galar ar ei hol. Hannai o deulu Undodaidd, ac er mai aelod o enwad y Bedyddwyr ydoedd hi, eto nid oedd heb gryn gydymdeimlad ag enwad ei chysylltiadau teuluol. Bu yn derbyn "Yr Ymofynnydd" am flynyddoedd. Benyw dawel a chymydoges garuaidd ydoedd a hoffid hi yn fawr gan y sawl a'i hadwaenai. Claddwyd ei gweddillion yn ymyl ei phriod a'i rhagflaenodd flynyddoedd yn ol ym mynwent Eglwys Llanwnnen. Pregethwyd yn bwrpasol iawn yn y ty gan y Parch. E. Glyn Edwards, ei gweinidog, a chymerwyd rhan yn y gwasanaethau gan y Parchn. L. Williams, T. O. Williams, M.A. a D. Evans. Gweinyddwyd yn yr eglwys gan y ficer, y Parch. J. H. Davies.

Dydd Iau, Chwef. 4, yn 45 mlwydd oed bu farw "Maggie" merch hynaf Mr. a'r diweddar Mrs. Jones, Frowen ond yn awr o Brynmanalog, Pencarreg, ger Llanbedr. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da ers blynyddoedd ond yn ddiweddar yr oedd wedi adnewyddu ei nherth, fel yr oedd y siom yn fwy. Ni bu yn glaf ond am rhyw ddeufis neu dri ond cafodd gystudd caled a phoenus. Dioddefodd y cyfan yn amyneddgar a serchus a bu farw yn dawel a thangnefeddus. Merch dawel a diwyd ydoedd a'i chalon yn ei chartref. Yr oedd yn gymeriad hynaws a siriol ac yr oedd ei serch yn gynnes a'i sel yn fawr dros Eglwys Brondeifi. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol ym mynwent Brondeifi, y Gweinidog yn gwasanaethu gyda chynorthwy y Parchn. R. C. Jones a Lewis Williams; yr angladd yn anghyhoedd. Gadawodd dad, dwy chwaer a dau frawd heblaw perthynasau eraill i wylo'n gymhedrol ar ei hol a hithau'n marw ynghanol ei dyddiau.

Nos Woner, Chwefror 5, yn 74 mlwydd oed bu farw Sarah Evans, Rhydycais House, ger Brondeifi, Llanbedr. Yr oedd ein chwaer yn torri ers tro bellach a hawdd darllain wrth yr wyneb fod yna rywbeth wedi gafael ynddi. Ni chaethiw-wyd hi i'w gwely ond am dymor byr ond cafodd gystudd caled. Yr oedd y galon yn ei blino ers tro ond pan gafodd ergyd o'r parlys, yr oedd y diwedd yn agos. Benyw dawel a siriol ydoedd a'i chalon gan angau'n cael ei chlymu'n dynnach wrth Brondeifi. Hi oedd yn gofalu am y Capel ac yr oedd yn ei sel a'i chariad yn fodlon cadw drws yn Seion. Y dydd Iau canlynol daeth tyrfa luosog ynghyd i dalu'r gymwynas olaf iddi. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parchn. D. Jones a E. Glyn Edwards. Gwasanaethwyd yn y Capel gan y Parchn. R. C. Jones a T. O. Williams, M.A., ac ar lan y bedd gan y Parch. Corris Davies. Gadawodd blant, brawd a chwaer, heblaw perthynasau ereill i alaru ar ol mam ddarbodus a da

"Ewyllysiodd fyw yn onest; mewn symlrwydd calon yn ofni Duw."

CHWEFROR 20, yn 75 mlwydd oed, Sarah Evans, Lone, Alltyblaca, gweddw y diweddar William Evans, Blaencruser, plwyf Llanwnnen. Yr oedd ei phriod wedi ei rhagflaenu er's deng mlynedd-ar-hugain. Byr fu ei chystudd. Treuliodd ei bywyd yn yr ardal hon. Yr oedd yn nodedig am ei sirioldeb a'i hynawsedd. Parchai bawb, ac ni ddoluriai deimlad neb drwy air nac ymddygiad. Oblegid hynny hoffid hi gan bawb. Yr oedd bob amser yn bresennol yn y gwasanaeth. Claddwyd ym mynwent Alltyblaca. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. Glyn Edwards, Cwrtnewydd. Gadawodd ddau fab a mab maeth, pum merch a merch faeth, wyrion, ac orwyrion mewn galar ar ei hol.

NODION YR EGLWYSI.

CAPELYGROES.—Sul y 24 o Ionor, cyflwynwyd llyfrau yn wobrwyon i nifer o blant am fynychu'r Ysgol Sul yn ddifwlch gan Mr. Evans, Baily. Diolch yn fawr iddo am ei garedigrwydd a'i ddiddordeb yn yr Ysgol Sul.

CAPEL Y GRAIG, LLANDYSUL.—Cynhaliodd yr Eglwys ei gwyl de flynyddol ar y dydd cyntaf o'r flwyddyn newydd. Trwy garedigrwydd Mr. a Mrs. Evans, Wilkes Head Hotel, y cafwyd y wledd eleni, ac ni arbedwyd trafferth na thraul er ei gwneuthur yn un lwyddiannus ymhob ystyr. Daeth tyrfa luosog ynghyd i gyfrannu o'r pethau da, a bu pawb fel arfer yn cynorthwyo wrth y byrddau. Yn yr hwyr cafwyd cyngherdd llwyddiannus, ac yr oedd y Tyssul Hall yn orlawn. Nodwedd arbennig y gyngherdd ydoedd mai aelodau Ysgol Sul y Graig yn unig fu'n cymryd rhan ynddo, a mawr fu'r canmol, a gwnaeth yr Ysgol Sul fwy o elw nag erioed. Cadeiriwyd gan Mr. John Evans, D.C., Wilkes Head Hotel.

Y PENNY BANK.—Rhannwyd £420 rhwng aelodau Penny Bank Ysgol Sul y Graig. Gwnaed hyn y Sul cyntaf yn y flwyddyn ac anrhegwyd aelodau ffyddlonaf yr Ysgol a gwobrau o lyfrau gwerthfawr.

Y mae yr eglwys yn ddiweddar wedi prynu y tir ar yr hwn mae'r Capel wedi ei adeiladu. Talwyd £100 am dano. Y maent hefyd wedi prynu darn o dir sydd yn ffinio a thir y capel gyda'r bwriad o adeiladu ysgoldy arno at wasanaeth yr Ysgol Sul, etc. Talwyd am hwn £125.

Y GRAIG A GELLIONNEN.—Yn y Graig, nos Nadolig, dan arweiniad y gweinidog, Y Parch. D. G. Rees, cynhaliodd yr eglwys ei chyngerdd blynyddol adloniadol. Cawd adroddiadau ac unawdau offernyol a lleisiol. Cyfeiliwyd gan Mri. Haydn Morgan ac Isaac E. Hopkin, B.Sc. Casglwyd defnydd y rhaglen gan Mr. J. J. Williams.

Eto yn yr un lle, nos Sul, Ionor 24, 1926, oedd pen chwarter yr Ysgol Sul. Cymerodd pob oed ran ac yr oedd camp ar y gwaith. Llywyddwyd gan Mr. Hopkin Jones, cyn-lywydd yr Ysgol Sul; a chanwyd y berdoneg gan Mr. I. E. Hopkin, B.Sc. a Mr. David Jones, Trebanos.

Hefyd, nos Sul, Ionor 31, wedi'r gwasanaeth, cafwyd Organ Gyngherdd dan nawdd pwyllgor yr Organ. Datganwyd gan Mri. David J. Bowen, Garnlwyd, Trebanos, ac A. W. Thomas, Clydach. Canwyd y crwth gan Mr. Marles Williams, L.C.V., Trebanos. Mr. Llew. Davies, L.R.C.M., Clydach oedd wrth yr Organ, ac yr oedd yn gwefreiddio a synnu'r gwrandawyr. Casglwyd yn sylweddol at drysorfa'r Organ. Diolcha'r pwyllgor am bob help, a hyderi'r y pery'r help hwnnw nes cael ohonom *clean sheet*.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

(Sefydlwyd yng Nghastell Nedd, 1802.)

Llywydd = Y Parch. D. Conwil Evans, Rhydygwin.

CYNHELIR

Cyrddau Chwarter y Pasc

.. YN ..

ALLTYBLACA

Hwyr Mawrth a Dydd Mercher, Ebrill 6 a 7, 1926

Trefn y Cyfarfodydd—

Nos Fawrth, am 6.30—Gwasanaeth a Dwy Bregeth.

Fore Mercher am 10—*Disgwylir Dau Gynrychiolydd o bob Capel ynghyd a'r Gweinidog er ymdrin a chwestiynau pwysig ynglyn a'r achos.*

(Bydd cwestiwn y Llyfr Emynau, cwestiwn yr Achosion Gwan fel Cwmwrdu a Phanteg, a chwestiwn yr Ysgol Sul yn cael eu codi.—Y Gol.)

Dydd Mercher am 2 a 6—Gwasanaeth a Dwy Bregeth.

Bydd y Parchn. E. R. Dennis, D. G. Rees, a Dr. Griffiths ynghyd a Gweinidogion y Cylch yn gwasanaethu.

L. WILLIAMS (*Gweinidog*).

E. O. JENKINS
(*Ysgrifennydd y Gymdeithas*).

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandysul.

JUST PUBLISHED.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS; etc., Rose Trees, Tomato Plants, Begonias, Geraniums, Lobelias, Palms, Ferns, etc.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist,

CARMARTHEN.

Telegrams—COYSH, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

Bradford House, Llandyssul.

For Suits and Costumes to order from 50s.

—Mourning at Shortest Notice.—

... Satisfaction Guaranteed. ...



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through 1850 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE : 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C.2

Affiliations : Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland ; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland ; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.